



Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Rhif Polisi: P005

Diwygiad/Fersiwn: 2.1

**Unigolyn sy'n Gyfrifol: Cyfarwyddwr Cartrefi a Chymunedau
Cymeradwyaeth y Bwrdd: Hydref 2025**

I'w Adolygu: Hydref 2028



Cynnwys

1. Diben	3
2. Y pethau pwysig.....	3
3. Diffiniadau a Thalfyriadau	4
4. Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	5
4.1 Diffiniad Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	5
4.2 Digwyddiadau Casineb/ASB ar Sail Rhagfarn.....	5
4.3 Amgylchiadau y bydd BCG yn dod ynghlwm wrthynt.....	6
4.4 Amgylchiadau na fydd BCG yn dod ynghlwm wrthynt	6
4.5 Yr Hyn y Gallwch ei Ddisgwyl gan BCG.....	6
4.6 Cefnogi Dioddefwyr.....	7
4.7 Cefnogi Troseddwyr Bregus	8
4.8 Gweithgarwch Rhagweithiol.....	8
4.9 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	8
5. Monitro a mesurau.....	9
6. Polisiâu cysylltiedig.....	9
7. Deddfwriaeth berthnasol	9
8. Datganiad diogelu data.....	10
9. Y Gymraeg	10
10. Gwiriad Asesu Effaith ar Gydraddoldeb.....	11
11. Cwynion, anghydfod a phryderon	13
Atodiad: Matrics Risg ASB	13
Atodiad:	Error! Bookmark not defined.

1. Diben

Bwriad y polisi hwn yw cynorthwyo preswylwyr i fyw bywyd sy'n rhydd rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) a niwsans. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio dull adferol o feithrin a chynnal perthnasoedd rhwng cymdogion a chymunedau, ac o ran gwella perthnasoedd pan fo angen.

Mae'r polisi hwn yn nodi pryd a sut y bydd BCG yn ymyrryd mewn achosion o ASB. Mae BCG wedi ymrwymo i ddefnyddio dull adferol, a hynny o ran defnyddio technegau adferol i feithrin a chynnal perthnasoedd rhwng unigolion, cynlluniau a chymunedau ehangach, a hefyd o ran defnyddio ymyriadau adferol i gydnabod y niwed a achosir gan ASB, rhannu'r effaith y mae hyn wedi ei chael a hwyluso gwella perthnasoedd drwy gytundebau cyffredin. Mae cysoni gwrthdaro'n hanfodol i gefnogi perthnasoedd iach rhwng ein cymdogion a'n cymunedau a dyma ein ffordd ganolog o fynd i'r afael ag achosion o ASB a adroddir i ni. Hyfforddir staff tai mewn ymarfer adferol a chânt eu cefnogi gan arbenigwyr a rheolwyr hyfforddedig.

Rydym yn eglur ynghylch mathau'r achosion y gall BCG ddod ynghlwm wrthynt, mathau'r achosion na allwn ddod ynghlwm wrthynt, a phan fo modd i ni ddod ynghlwm, y ffordd y byddwn yn gwneud hynny.

Y Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau sy'n berchen ar y polisi hwn ac yn ei roi ar waith. Adolygir effeithiolrwydd y polisi a'r broses darparu hyfforddiant yn flynyddol. Bydd yr ymarfer hwn yn sicrhau bod y polisi yn gyfredol ac yn parhau'n berthnasol i anghenion BCG.

“Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys amrediad eang... Gall achosi mân aflonyddu neu gall ddifetha bywydau'n llwyr. Er nad mater tai'n unig yw ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae'n amlwg fod gan y sector tai rôl bwysig i'w chwarae o ran ei atal ac ymateb iddo. Yn wir, mewn llawer o achosion mae landlordiaid cymdeithasol wedi rhoi arweiniad ar fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymunedau ac mae llawer o enghreifftiau o arferion da'n bod o fewn y sector. Mae llawer o enghreifftiau o arferion da'n bod o fewn y sector. Nid yw ymddygiad gwrthgymdeithasol o angenrheidrwydd yn cynnwys tramgwyddau troseddol ac mae tramgwyddau troseddol y tu allan i ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond mae'r math hwn o ymddygiad yn tansilio ffydd pobl yr eir i'r afael â throeddu ac mae'n cynyddu teimlad o ofn troseddau.”

Llywodraeth Cymru

2. Y pethau pwysig

Gofynnwn ni i breswylwyr beth sy'n bwysig iddynt. Mae preswylwyr eisiau: -

- teimlo'n ddiogel y tu mewn a thu allan i fy nghartref - i fi a fy ymwelwyr
- mwynhau amser tawel
- cael fy hysbysu os rwyf wedi lleisio pryderon ac am i'r staff fod yn rhagweithiol
- cymdogion parchus
- ansawdd bywyd iach

3. Diffiniadau a Thalfyriadau

<i>Term</i>	<i>Talfyriad</i>
Grŵp Beacon Cymru	BCG
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	ASB
ASB ar Sail Rhagfarn	PMASB
Swyddog Tai Cymunedol	CHO

4. Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

4.1 Diffiniad Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae BCG yn mabwysiadu diffiniad ASB fel y'i nodir yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, sef:

- (a) ymddygiad sydd wedi achosi, neu sy'n debygol o achosi, aflonyddwch, braw neu straen i unrhyw berson,
- (b) ymddygiad sydd â'r gallu i achosi niwsans neu annifyrrwch i berson mewn perthynas â'r person hwnnw'n byw mewn cartref preswyl, neu
- (c) ymddygiad sydd â'r gallu i achosi niwsans neu annifyrrwch sy'n berthnasol i dai i unrhyw berson.

Mae enghreifftiau o'r ymddygiad hwn yn cynnwys y pethau canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

Troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau mewn eiddo neu yn yr ardal	Trais neu fygwth trais	Difrod i eiddo, sy'n cynnwys graffiti a fandaliaeth	Aflonyddu ac erledigaeth
Digwyddiadau casineb ac ASB ar sail rhagfarn	Cam-drin ar lafar	Niwsans sŵn	Taflu sbwriel, tipio anghyfreithlon, gwaredu sbwriel a chamddefnyddio manau cymunedol
Niwsans yn deillio o geir	Niwsans yn deillio o anifeiliaid		

4.2 Digwyddiadau Casineb/ASB ar Sail Rhagfarn

Mae BCG yn diffinio digwyddiadau casineb/ASB ar sail rhagfarn (PMASB) fel ymddygiad a seilir ar anoddefgarwch neu ragfarn tuag at nodweddion gwarchodedig person neu grŵp o bobl, yn ôl diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, neu nodweddion gwarchodedig person sy'n agos iddynt. Dan yr amgylchiadau hyn, nid oes rhaid i'r nodweddion gwarchodedig fod yn bresennol yn yr achos penodol - mae amgyffred eu bod yn bresennol yn ddigon.

Blaenoriaethir achosion sy'n seiliedig ar ragfarn.

4.3 Amgylchiadau y bydd BCG yn dod ynghlwm wrthynt

Bydd BCG yn rhoi'r polisi hwn ar waith pan mai preswlydd/preswylwyr, aelod o aelwyd y preswlydd/preswylwyr ac/neu ymwelwyr sy'n gyfrifol am yr ASB. Nid yw o bwys pwy yw targed yr ASB ac mae hynny'n cynnwys ein staff, asiantiaid a/neu gontractwyr. Ymdrinnir â phob achos yn ôl ei amgylchiadau.

Pan nad yw troseddwr honedig yn un o breswylwyr BCG, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu a'r awdurdod lleol i gyrraedd canlyniad priodol.

Byddwn yn cynorthwyo perchen-feddianwyr neu denantiaid preifat pan fo'r troseddwr yn un o breswylwyr BCG.

4.4 Amgylchiadau na fydd BCG yn dod ynghlwm wrthynt

Gall canfyddiadau unigolion o ASB gynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o bethau mewn bywyd bob dydd na fyddent, dan amgylchiadau arferol, yn cael eu hystyried yn ASB ac felly ni fyddant yn cael eu hymchwilio iddynt dan delerau'r polisi hwn.

Torri glaswellt	Defnyddio peiriant sugno llwch / sŵn teclynnau cartref	Arogleuon (oni bai eu bod yn gysylltiedig â chyffuriau)	Plant yn chwarae
Cerdded ar lawr pren	Mân niwsans gan anifeiliaid (e.e. cathod yn crwydro i erddi)	Gwrthdaro o ran ffordd o fyw	

Byddwn yn gweithio gyda'r preswylwyr sy'n adrodd am faterion o'r mathau hyn i reoli disgwyliadau ac argymell ffyrdd amgen o ddatrys.

4.5 Yr Hyn y Gallwch Ei Ddisgwyl gan BCG

Bydd BCG yn adolygu pob adroddiad ASB a ddaw i law. Rhoddir ystyriaeth i gyd-destun yr adroddiad, p'un a yw'n ddigwyddiad sy'n cael ei adrodd am y tro cyntaf, neu'r diweddaraf mewn cyfres o adroddiadau parhaus.

Bydd bregusrwydd a risg yn allweddol i bennu'r ymateb mwyaf effeithiol a chymesur a gall BCG ddefnyddio'r matrices asesu risg yn Atodiad A i asesu effaith go iawn yr ASB (nad yw bob amser yr un effaith â'r effaith dybiedig). Bydd hyn yn helpu i sicrhau y caiff y rhai yr effeithir arnynt gan ASB y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Trafodir unrhyw gamau awgrymedig y

gellir eu cymryd gyda'r dioddefwr/tyst, yn ogystal ag egluro'r opsiynau sydd ar gael a'r canlyniadau tebygol.

Ein cynnig sylfaenol yw hwyluso dull ymyrryd adferol, sy'n cefnogi'r dioddefwr, y tystion, a'r troseddwr i gymryd rhan mewn sgwrs gefnogol, ddiogel i gyrraedd datrysiad y mae pawb yn cytuno arno.

Bydd BCG yn defnyddio'r ystod o gamau gorfodi a'r opsiynau cyfreithiol sydd ar gael yn llawn i fynd i'r afael yn effeithiol ag ASB. Serch hynny, ni fyddwn yn symud dioddefwr, tystion na throseddwr fel modd o ddatrys ASB; byddwn yn delio â'r ASB. Mae un eithriad yn unig i hynny dan amgylchiadau eithafol iawn, sef pan fo pryderon ynghylch diogelwch y preswlydd. Bydd angen argymhellion a chymorth asiantaethau statudol wrth ystyried gwneud symudiad o'r fath.

Sefydli'r dull ffafriol o gyfathrebu parhaus â phreswylwyr sy'n adrodd am ASB o'r dechrau un. Ar ôl i'r adroddiad ddod i law, caiff y dioddefwr/tyst un person cyswllt. Y CHO ar gyfer yr ardal neu swyddog diogelwch y gymuned fydd y person hwnnw fel arfer. Bydd y CHO neu swyddog diogelwch y gymuned yn gyfrifol am reoli'r achos, sefydlu'r ffeithiau, a phennu a oes modd gweithredu ar y mater. Bydd y CHO neu swyddog diogelwch y gymuned yn hysbysu'r dioddefwr a'r tystion yn rhagweithiol. Bydd BCG yn sicrhau bod preswylwyr yn gallu cyrchu dehonglwr ac arwyddwr ac yn defnyddio fformatau cyfathrebu priodol ar gyfer unrhyw un sy'n cael trafferth darllen neu ysgrifennu.

4.6 Cefnogi Dioddefwr

Bydd BCG yn defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma, dan arweiniad troseddwr ac un sy'n gymesur wrth reoli ASB a bydd, pan fo modd a phan fo'n briodol, yn gweithio gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill i fynd i'r afael â materion. Bydd hyn yn sicrhau bod effaith gorfforol, seicolegol, ac emosiynol ASB ar y rhai sydd wedi'u heffeithio yn cael ei hystyried bob amser ac yn ffactor yn y ffordd y rheolir achosion.

Rhoddir gwybod i droseddwr am y gwasanaethau cymorth y gallwn ni ac asiantaethau eraill, fel yr heddlu, Cymorth i Ddioddefwr, Cyngor ar Bopeth, a gwasanaethau cyfryngu eu darparu, ac atgyfeirio yn ôl yr angen.

Cynhelir cyfrinachedd priodol a byddwn bob amser yn ceisio cydsyniad y dioddefwr neu'r tystion cyn cysylltu â'r troseddwr honedig, cynrychiolwyr cyfreithiol neu unrhyw asiantaethau eraill.

Os oes achos llys, byddwn yn gwneud y pethau hyn:

- darparu cludiant i'r llys i dystion, talu am gostau lluniaeth, gofal plant ac unrhyw gostau rhesymol eraill, pan fo'r costau hyn yn angenrheidiol i hwyluso presenoldeb y tyst yn y llys
- trefnu ymweliad yng nghwmni rhywun i'r llys cyn yr adeg y mae angen bod yn bresennol i wneud y tystion yn gyfarwydd â lleoliad a gweithdrefnau'r llys.
- gweithio gydag asiantaethau cymorth pan wneir cwyn am ASB yn erbyn troseddwr honedig sy'n fregus, gyda'r bwriad o annog newid cadarnhaol yn ei ymddygiad.

Bydd BCG yn gwneud preswylwyr yn ymwybodol o'r broses Adolygu Achos o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) (sbardun cymunedol oedd yr hen enw arno) a'u hawl i wneud cais a bydd yn gweithredu fel eiriolwr dros gefnogi preswylwyr i fwrw ymlaen ag adroddiad i'r awdurdod lleol pan fo'n briodol i ni wneud hynny.

Ein bwriad yw creu sefyllfa lle mae pobl yn teimlo'n hyderus ynddi i ddatgelu gwybodaeth, ond pe bai dioddefwyr neu dystion yn dymuno aros yn ddiennw, byddwn yn ymchwilio i adroddiadau o hyd. Tynnir sylw preswylwyr at y ffaith bod aros yn ddiennw yn golygu y gall mathau'r camau y byddwn yn eu cymryd fod yn gyfyngedig.

4.7 Cefnogi Troseddwr Bregus

Bydd BCG yn ystyried a all y troseddwr elwa ar gymorth a chefnogaeth gan asiantaethau cymorth perthnasol ac fe wnaiff atgyfeiriadau o'r fath yn ôl yr hyn y mae'n ystyried yn briodol gan feddwl am fregusrwydd.

Pan fo troseddwr ASB yn bobl ifanc, byddwn yn gwneud ein gorau i weithio gydag asiantaethau partner eraill a rhieni i reoli'r ASB. Ymyrryd yn gynnar ac atal fydd yr opsiwn delfrydol, ond cymerir camau cyfreithiol pan fo'n angenrheidiol.

4.8 Gweithgarwch Rhagweithiol

Mae ein Cytundebau Tenantiaeth yn glir ynghylch atal niwsans ac ASB ac fe eglurir hyn yn glir i breswylwyr pan fyddant yn llofnodi eu tenantiaeth.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ennyn sylw preswylwyr mewn gweithgareddau a fwriadir i leihau ASB.

Mae BCG wedi ymrwymo i gyfleoedd cyfartal a gweithredir y polisi hwn yn deg ac yn gyfartal. Ni fydd BCG yn gwahaniaethu, yn aflonyddu nac yn gwneud cam ag unrhyw ddioddefwr, tyst, troseddwr honedig nac unrhyw un arall sydd ynghlwm ar sail unrhyw nodwedd(ion) (g)warchoddedig.

Dyma'r nodweddion gwarchoddedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb:

Oedran	Beichiogrwydd / Mamolaeth	Rhyw
Hil	Cyfeiriadedd Rhywiol	Ailbennu Rhywedd
Anabledd	Crefydd neu Gred	Statws Priodasol / Partneriaeth Sifil

4.9 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'n rhaid i BCG, wrth roi ei swyddogaethau rheoli tai ar waith, roi sylw gofalus i'r angen i wneud y pethau canlynol:

- a) cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu than y Ddeddf hon;

- b) gwella cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu;

Mae hyn yn cynnwys yr angen i wneud y pethau hyn:

- (i) cael gwared ar yr anfanteision i'r bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol o ran anfanteision sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno, neu leihau'r anfanteision;
 - (ii) cymryd camau i fodloni anghenion y bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl nad ydynt yn ei rhannu;
 - (iii) annog y bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall y mae cyfranogiad gan bobl o'r fath yn anghymesur o isel.
- c) mabwysiadu cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae hyn yn cynnwys yr angen i wneud y pethau hyn:

- (i) mynd i'r afael â rhagfarn, a
- (ii) hyrwyddo dealltwriaeth.

Nid awdurdod cyhoeddus ydym ni, ond rydym yn rhoi swyddogaethau cyhoeddus ar waith pan rydym yn dyrannu a rheoli tai cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni ystyried y materion a drafodir uchod.

Gall cydymffurfio â dyletswyddau yn yr adran hon gynnwys trin rhai pobl yn fwy ffafriol na phobl eraill; ond nid ystyr hynny yw caniatáu ymddygiad a fyddai fel arall wedi'i wahardd gan neu than y Ddeddf hon.

5. Monitro a mesurau

Sylfaen yr holl ddysgu ac astudio yw data o ansawdd ac mae BCG yn ymrwymo i gadw cofnodion ASB cymesur, pwrpasol, sy'n canolbwyntio ar bobl. Rydym yn ymdrechu i greu mesurau arweiniol sy'n astudio sut yr ydym yn gweithredu er diben (e.e. 'bywyd sy'n rhydd rhag ASB' ac 'adeiladu cymunedau adferol') a mesurau ar sail y gorffennol (e.e. boddhad gydag ymateb ac amser a gymerwyd i ddatrys).

Cofnodir mesurau i ddeall manylion penodol sy'n ymwneud ag ASB (e.e. lleoliad, math, ac ati) ac adolygir y rhain yn rheolaidd mewn timau ac ar lefel reoli. Mae'r data hwn yn ein cynorthwyo i nodi manau poeth, dylunio ymyraethau a nodi partneriaid (mewnol ac allanol) i gydweithio â nhw. Adolygir achosion o ASB, gan ddefnyddio dull 'powlen pysgod' o ymarfer myfyriol, yn rheolaidd. Cynhelir yr ymarferion hynny mewn timau i rannu enghreifftiau ac i wahodd cydweithwyr i fyfyrion er mwyn cynorthwyo â rhannu arferion gorau, dylunio ymyriadau a gwella sut yr ydym yn gweithio

6. Polisiâu cysylltiedig

Polisi Cwynion

7. Deddfwriaeth berthnasol

Mae'r polisi hwn yn ystyried gofynion:

- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014
- Deddf Cydraddoldeb 2010

- Deddf Tai Cymru 2014
- Deddfau Tai 1985, 1988, 1996, 2004
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

a gofynion Fframwaith Rheoleiddio Llywodraeth Cymru: -

- RS3 - darperir gwasanaethau o ansawdd dda i denantiaid. Mae'r landlord cymdeithasol yn cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi, yn darparu gwasanaethau sy'n bodloni amrywiol anghenion tenantiaid ac yn cynnal lefelau uchel o fodlonrwydd â'r gwasanaethau ymhlith tenantiaid.

8. Datganiad diogelu data

Gweithreda BCG Bolisi Diogelu Data penodol sy'n llywodraethu sut y bydd y sefydliad yn rheoli'r gwaith o gasglu, cadw, prosesu, rheoli a chael gwared ar ddata personol a data categori arbennig unigolion. Dyluniwyd y polisi i ymgorffori'r holl ofynion cyfreithiol a gynhwysir yn Neddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 a chanllawiau ac arferion gorau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Wrth ymwneud â gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ASB, bydd BCG yn ofalus o ran gwahaniaethu rhwng pa wybodaeth y gall ei defnyddio a'i rhannu mewn ymchwiliadau a'r wybodaeth nad oes modd ei defnyddio a'i rhannu mewn ymchwiliadau.

9. Y Gymraeg

Mae'r Grŵp yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well pan gânt wneud hynny yn yr iaith o'u dewis. Felly, byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg os oes cais am hynny, a'u bod o ansawdd dda ac yn cael eu darparu'n brydlon.

10. Gwiriad Asesu Effaith ar Gydraddoldeb

Beth yw'r gweithgareddau o ddydd i ddydd dan y polisi, swyddogaeth, penderfyniad neu broses hon?

Rheoli achos ASB

A ydych chi'n asesu newidiadau i un o'r polisiâu, arferion, penderfyniadau neu wasanaethau canlynol?

Ticiwch Yma

Penderfyniad strategol ar gyllideb

Gweithgaredd creu grant

Newid i gyflawni gwasanaeth

ASB

Atgyweiriadau, gwaith cynnal a chadw a/neu Safon Ansawdd Tai Cymru

Rhent

Dyraniadau neu osodiadau

Polisi recriwtio neu dalu

Cyfathrebu neu gyswllt â thenantiaid

Polisi neu benderfyniad sy'n effeithio ar denantiaid, gweithwyr neu'r gymuned ehangach

Polisi neu arfer mawr sy'n effeithio'n sylweddol ar sut y cyflawnir swyddogaethau o ran pobl â nodweddion gwarchoddedig

Mae'n berthnasol i weithgareddau y dangoswyd yn flaenorol eu bod yn bwysig i nodweddion penodol

Mae'n berthnasol i bolisi/arfer lle mae posibilrwydd sylweddol o leihau anghydraddoldeb neu wella canlyniadau

Mae'n berthnasol i faes sydd ag anghydraddoldebau hysbys e.e. tai hygyrch, bylchau cyflog, aflonyddu ar sail hil neu homoffobia, cyfathrebu

Mae'n berthnasol i faes sydd â diffyg data, tystiolaeth neu ymchwil cyhoeddedig

Os oes tic wrth unrhyw un o'r uchod – ewch ymlaen i'r Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb (i ddilyn y dudalen hon)

A oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb?

Nac oes

Os nad oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, eglurwch y penderfyniad yn y blwch isod:

Dim newid i'r polisi; dyma'i adnewyddu a'i ddiweddarau fel bod polisi blaenorol ASB Coastal yn berthnasol i holl eiddo Beacon.

Cwblhawyd gan: Louise Bolam
11/9/25

Dyddiad:

11. Cwynion, anghydfod a phryderon

Gellir cwyno am unrhyw agwedd ar sut mae BCG wedi ymateb i adroddiadau ASB. Mae modd gwneud hynny drwy broses gwynion y cwmni drwy gysylltu â BCG dros y ffôn, drwy e-bost, sgwrs fyw, galw draw neu drwy anfon llythyr.

Atodiad: Matrics Risg ASB

Gweler trosodd.

Enw:	Cyfeiriad:
------	------------

Rhif y Digwyddiad
 Dyluniwyd y cerdyn sgorio hwn i'ch helpu i nodi dioddefwyr, tystion, ac achwynwyr bregus. Dylid ei ddefnyddio fel canllaw, ac ar y cyd â'ch barn eich hun (a barn partneriaeth eich cymdogaeth) i helpu i ganfod pa gymorth a dulliau amddiffyn sydd eu hangen mewn unrhyw sefyllfa benodol. Dylid trafod pob cam a gymerir o ganlyniad i'ch asesiad gyda'r tyst i sicrhau bod y camau'n bodloni ei anghenion.

Hanes	1. Ar wahân i'r achlysur hwn – pa mor aml ydych chi'n cael problemau?	5 3 2 1 0	Yn ddyddiol Bron bob dydd Rhan fwyaf o wythnosau Rhan fwyaf o fisoedd Weithiau'n unig
	2. A ydych chi'n meddwl bod y digwyddiad presennol yn gysylltiedig â digwyddiadau blaenorol? Os ydych, pam?	2 0	Ydw Nac ydw
	3. A ydych chi'n teimlo bod digwyddiadau'n digwydd yn amlach ac/neu yn gwaethygu?	2 0	Ydw Nac ydw
	4. A ydych chi'n adnabod y troseddwr/troseddwyr	2 1 0	Maent yn adnabod ei gilydd yn dda Maent yn 'hysbys' i'w gilydd Nid ydynt yn adnabod ei gilydd
	5. A oes gan y troseddwr (neu ei gyd-droseddwyr) hanes o fygyly neu aflonyddu, neu a ydyw'n adnabyddus am wneud hynny?	6 4 2 0	Mae'r troseddwr neu ei gyd-droseddwyr yn aflonyddu'r achwynydd ar hyn o bryd Mae'r troseddwr neu ei gyd-droseddwyr wedi aflonyddu'r achwynydd yn y gorffennol Nid yw'r troseddwr neu ei gyd-droseddwyr wedi aflonyddu'r achwynydd, ond mae ganddo hanes o aflonyddu neu ymddygiad treisgar, neu'n adnabyddus am wneud hynny Nid oes gan y troseddwr na'i gyd-droseddwyr hanes o aflonyddu neu fygyly, ac nid ydynt yn adnabyddus am wneud hynny
	6. A ydych chi wedi rhoi gwybod i unrhyw asiantaethau eraill am beth sydd wedi digwydd? Os do, a ydych chi'n hapus i ni drafod y broblem hon gyda nhw? Manylion:	0 1	Ydw Nac ydw
Bregusrwydd	7. Pa un o'r canlynol ydych chi'n meddwl bod y digwyddiad hwn wedi'i dargedu tuag ato. Nodwch	4 3 1 0	Chi Eich teulu Eich cymuned Dim un
	8. A ydych chi'n teimlo bod y digwyddiad hwn yn gysylltiedig â'ch ffydd, cenedligrwydd, ethnigrwydd, rhywioldeb, rhywedd neu anabledd? Manylion:	3 0	Ydw Nac ydw
	9. Yn ogystal â'r hyn sydd wedi digwydd, a ydych chi'n teimlo bod unrhyw beth sy'n cynyddu risg i chi neu eich aelwyd (e.e. oherwydd amgylchiadau personol). Manylion:	3 0	Ydw Nac ydw
	10. Faint mae beth sydd wedi digwydd wedi effeithio arnoch? Manylion:	0 1 2 3 5	Dim o gwbl Wedi effeithio rhywfaint arnaf Wedi effeithio tipyn go lew arnaf Wedi effeithio'n fawr arnaf Wedi effeithio'n ofnadwy arnaf

11. A yw eich iechyd neu iechyd unrhyw un arall wedi'i effeithio yn sgil y digwyddiad hwn ac unrhyw ddigwyddiadau blaenorol? Manylion:	3 3	lechyd corfforol lechyd meddwl
12. A oes gennych chi weithiwr cymdeithasol, ymwelydd iechyd neu unrhyw fath arall o gymorth proffesiynol? A ydych chi'n rhoi caniatâd i ni siarad â nhw am hyn? Manylion:	0 1	Nac ydw Ydw
13. A oes gennych chi unrhyw ffrindiau a theulu i'ch cefnogi?	3 3 1 0	Mae'r achwynydd yn byw ar ei ben ei hun ac yn unig Mae'r achwynydd wedi'i wahanu rhag y bobl a all gynnig cymorth Mae gan yr achwynydd rhywfaint o bobl i droi atynt am gymorth Mae gan yr achwynydd rwydwaith agos o bobl i droi atynt am gymorth
14. Ar wahân i unrhyw effaith arnoch chi, a ydych chi'n meddwl bod yr hyn sydd wedi digwydd wedi effeithio ar unrhyw un arall? Manylion:	1 3	Eich teulu Y gymuned leol Arall

CYFANSWM Y SGŌR

Yn seiliedig ar y ffactorau hyn a'ch barn bersonol, addaswch y sgôr yn unol â hynny.

0	4	8	12	16	20	22	24	26	28	30
Isel					Canolig					Uchel

Mae'r asiantaethau yno er gwybodaeth, a dylid eu defnyddio ar y cyd ag adnoddau lleol eraill, a'ch barn bersonol o ran pa gymorth a dulliau amddiffyn sydd eu hangen mewn unrhyw sefyllfa benodol. Dylid trafod pob cam a gymerir o ganlyniad i'ch asesiad gyda'r tyst i sicrhau bod y camau'n bodloni ei anghenion.

34 Uchel	<p>Yr Heddlu</p> <p>Tîm Tai / tîm ASB</p> <p>Wardeiniaid y gymdogaeth</p> <p>Cymorth i droseddwyr / Hyrwyddwr dioddefwyr a throseddwyr / Gwasanaethau cymorth eraill</p>
26 Canolig	<p>Yr Heddlu</p> <p>Tîm Tai / tîm ASB</p> <p>Wardeiniaid y gymdogaeth</p> <p>Cymorth i droseddwyr / Hyrwyddwr dioddefwyr a throseddwyr / Gwasanaethau cymorth eraill</p>
0 Isel	<p>Yr Heddlu</p> <p>Tîm Tai / tîm ASB</p> <p>Wardeiniaid y gymdogaeth</p> <p>Cymorth i droseddwyr / Hyrwyddwr dioddefwyr a throseddwyr / Gwasanaethau cymorth eraill</p>

Cydsynio i rannu gwybodaeth

Rwy'n cydsynio i asiantaethau yn caffael a rhannu gwybodaeth fel rhan o'r gwaith aml-asiantaeth i helpu a diogelu fy niogelwch a diogelwch fy nheulu.

Os oes pryderon am ddiogelwch plentyn, caiff gwybodaeth ei rhannu pa un ai a lofnodir y ffurflen hon ai peidio.

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Enw mewn print: _____